ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Llun 1af Tachwedd 2004, am 2.30pm
Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Mike Jones	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
R Probert	Dinas a Sir Abertawe
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Marks	CYLCH
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Andy Street	SLR Consulting Ltd.

1. **Ymddiheuriadau**

Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Strategaeth Wastraff)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 16eg Medi 2004**

Eitem 5: Nodwyd yr hepgorwyd cyfeiriad at yr angen am ddarparu eglurhad ac arweiniad cynllunio pellach yn yr Adendwm ar y meini prawf ar gyfer lleoli cyfleusterau trin gwastraff peryglus.

Gweithredu: CM i ychwanegu'r canlynol: "*Cododd CO yr angen i'r Adendwm gynnwys meini prawf cynllunio ar gyfer gweithfeydd trin gwastraff peryglus sy'n fater ar wahân i'r ymarferiad GIS sydd wedi'i anelu at safleoedd claddu sbwriel*".

3. **Adendwm y CGRh:**

- **Cynnydd ar waith y Grŵp Gwastraff Trefol Rhanbarthol**

Rhoddodd Andy Street gyflwyniad ar Adroddiad y Datganiad Sefyllfa "*Ymagwedd Ranbarthol tuag at Reoli Gwastraff Trefol*", a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

Roedd y cyflwyniad yn darparu:

- amlinelliad o'r Datganiad Sefyllfa ar ymagwedd ranbarthol tuag at reoli gwastraff trefol;
- adolygiad o'r ddarpariaeth isadeiledd ar gyfer gwastraff trefol yn Ne-orllewin Cymru;
- asesiad o fanteision ac anfanteision ymagwedd ranbarthol; a
- chrynodeb o gasgliadau ac argymhellion.

Nodwyd y prif bwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Bydd yn anodd nodi mecanwaith addas ar gyfer 'cronni' targedau;
- Bydd angen cefnogaeth ymarferol LlCC er mwyn 'cronni' targedau;
- Tynnodd CP sylw at e-bost a ddosbarthwyd gan LCC ynglŷn â 'chronni' lwfansau. Pwysleisiwyd bod Rheoliadau Cynllun Lwfans Claddu Sbwriel (Cymru) 2004 yn berthnasol i awdurdodau lleol unigol ac nad oedd mecanwaith dan y rheoliadau hyn ar gyfer 'cronni' lwfansau. Mae'r dyletswyddau cyfreithiol yn syrthio ar awdurdodau lleol ac ni ellir cyfuno'r rhain ar lefel ranbarthol;
- Adroddodd CP y byddai'r WLGA yn cefnogi gwaith rhanbarthol; ac
- Ni all y GTRh fynd ymlaen nes bod LlCC yn rhoi ateb ie/na pendant ynghylch mater 'cronni'.

Cytunwyd ar y canlynol:

- Cyn cyfarfod Fforwm yr Aelodau ar ddydd Gwener 3ydd Rhagfyr, bydd cyfarfod arall o'r GTRh yn cael ei gynnal gyda chynrychiolwyr o LCC i drafod mater 'cronni' ymhellach;
- Bydd Robert Williams a Russell Owens yn cael gwahoddiad i fynychu ynghyd â Cathy O'Brien a/neu Andy Rees. **Gweithredu**: SM i drefnu a darparu dyddiadau addas.

Gadawodd Andy Street y cyfarfod.

- **Ymchwil Mapio GIS: Adroddiad Cynnydd gan LCC**

Cyfeiriodd SM at y drafft *'Manyleb ar gyfer Mapio Ardaloedd o Ddiddordeb ar gyfer Safleoedd Gwastraff Is-Ranbarthol'*, a ddosbarthwyd.

Bwriedir i amrediad yr ymchwil fod mor gynhwysfawr â phosib oherwydd bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu mewn dwy ran:

- Y lleoliad claddu sbwriel a mapio GIS; a
- Meini prawf lleoliadau a mapio GIS ar gyfer pob math arall o gyfleusterau rheoli gwastraff.

Byddai'r Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o'r GTRh a byddai LlCC yn cadw hawlfraint yr ymchwil.

Dylid anfon sylwadau manwl ar y Fanyleb ddrafft at SM erbyn dydd Gwener 12fed Tachwedd. **Gweithredu**: Pawb.

4. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I'w drefnu.

5. **Unrhyw fater arall**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.